YR ADOLYGIAD O BLISMONA

GAN SYR RONNIE FLANAGAN

ADRODDIAD AR YR ASESIAD O EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Chwefror 2008

CYNNWYS

Cyflwyniad/Cefndir 2
- Fframwaith Cyfreithiol 2
- Methodoleg 2
- Prif ffrydio'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb 3
- Casglu Data 4

Dull Ymgynghori 4
- Ymgynghori Mewnol 4
- Ymgynghori Allanol 5

Canfyddiadau Ymgynghori 6
- Lleihau Biwrocratiaeth a Rheoli Adnoddau 7
- Plismona yn y gymdogaeth 8
- Atebolrwydd Lleol 9

Stopio a Rhoi Cyfrif 11
- Canfyddiadau Ymgynghoriadau Mewnol ac Allanol 12

Effaith Anghymesur neu Andwyol a nodwyd drwy ddadansoddi Data Ystadegol 15
- Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif 15
- Plismona yn y Gymdogaeth 16
- Awdurdodau'r Heddlu 19

Effaith Anghymesur neu Andwyol a nodwyd 24
- Hil 24
- Rhyw 26
- Anabledd 26
- Tueddfryd Rhywiol 27
- Ffydd/Crefydd 27
- Oedran 27
- Trawsrywedd 28

Cyfleoedd Cadarnhaol 28

Argymhellion 30

Casgliad 31

Cyfeiriadau 32

Atodiad A 33

Atodiad B 35

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'n rhanddeiliaid allanol a mewnol am eu cyfraniad gwerthfawr at yr Asesiad hwn o Effaith ar Gydraddoldeb o Adolygiad Syr Ronnie Flanagan o Blismona. Hoffem ddiolch hefyd i sefydliadau megis y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, Liberty, Awdurdod Llundain Fwyaf, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Brydeinig Merched ym maes Plismona, Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Mwslimaidd, yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi a gyfrannodd yn fanwl at yr asesiad.

Hoffem ddiolch yn arbennig hefyd i Everett Henry, Maqsood Ahmad, Doreen Lawrence, Bob Purkiss, yr Arglwydd Victor Adebowale, Jago Russell, Iqbal Bhana, Delores Stratton, Gavin Mckinnon, Katharine Hagestadt, Adil Khan a chyfranogwyr eraill am eu cefnogaeth a'u cymorth i gwblhau'r adroddiad hwn.

Awdur – Umar Zamman

Cyflwyniad/Cefndir

Ar gais Syr Ronnie Flanagan, sefydlwyd Grŵp Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i weithio gyda'r tîm adolygu i sicrhau i Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gynnal a hefyd i sicrhau i gydraddoldeb gael ei brif ffrydio ym mhob rhan o'r broses adolygu. Roedd yn ofynnol cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn ein galluogi i asesu'r effeithiau yr oedd adolygiad arfaethedig yn debygol o'u cael ar bobl, gan ddibynnu ar eu grŵp hiliol, eu rhyw, eu rhywioldeb ac ati, mewn ffordd systematig a thrylwyr ac ymgynghori ar yr effeithiau hynny. Mae'n bwysig bod argymhellion yr adolygiad yn cael eu cefnogi gan bob rhanddeiliad a chymuned yng Nghymru a Lloegr ac ystyriodd tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb saith maes amrywiaeth; Oedran, Anabledd, Ffydd, Rhyw, Hil, Tueddfryd Rhywiol a Thrawsrywedd wrth gynnal y darn hwn o waith.

Fframwaith cyfreithiol

Bydd yr Adolygiad o Blismona yn cael effaith fawr ar bobl mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i hystyried wrth gwblhau'r adroddiad hwn. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol i sgrinio pob polisi a gwasanaeth o ran eu perthnasedd i Hil, Anabledd a Rhyw ac mae'n rhaid cynnal asesiad llawn o effaith ar bolisïau sy'n berthnasol i unrhyw un o'r meysydd amrywiaeth a nodwyd uchod er mwyn nodi unrhyw effaith andwyol bosibl o dan ddyletswyddau statudol Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Am mai adolygiad annibynnol oedd hwn, gofynnodd Syr Ronnie Flanagan am i Asesiad gwirfoddol o Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gynnal yn unol â deddfwriaeth wrthwahaniaethu.

Cyfrifoldebau statudol eraill a ystyriwyd hefyd:

- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chred) 2003
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006

Methodoleg

Bydd y fethodoleg yn canolbwyntio ar sut yr aeth Grŵp Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ati i gynnal yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Nod tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb oedd ymdrin â materion o ran cydraddoldeb wrth

iddynt godi drwy fynd i gyfarfodydd yn y pedwar grŵp ffrwd gwaith yn ogystal â'r grwpiau cyfeirio a chymryd rhan ynddynt. Yn ogystal, cynhaliodd tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ei ymgynghoriadau ei hun â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol er mwyn ystyried unrhyw faterion allweddol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Y nod oedd ystyried pob maes yn benodol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth ac amlinellu mesurau i liniaru effaith anghymesur neu andwyol ar ffurf argymhellion penodol. Ymdrinnid â'r cyfleoedd cadarnhaol y byddai'r adroddiad yn eu creu hefyd ac amlygid meysydd allweddol i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y canfyddiadau.

Câi'r adroddiad terfynol ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ei gyhoeddi ochr yn ochr ag Adolygiad Syr Ronnie Flanagan ym mis Chwefror 2008.

Prif ffrydio'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cafodd cydraddoldeb ac amrywiaeth eu prif ffrydio ym mhob rhan o'r broses adolygu. Roedd Grŵp Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a oedd yn gysylltiedig â phroses yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, megis Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona, y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Roedd aelodau'r grŵp hwn yn rhan o'r broses benderfynu gyffredinol a hwy oedd bwrdd y prosiect.

Penderfynwyd hefyd y byddai aelod o dîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn gweithio'n agos gyda phob un o'r pedwar grŵp ffrwd gwaith ac arweinwyr dynodedig i amlygu mewn ffordd adeiladol unrhyw faterion allweddol a allai gael effaith andwyol ar grwpiau lleiafrifol a darparu mesurau realistig i liniaru effaith anghymesur. Cyflawnwyd hyn drwy sicrhau bod aelodau tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod llawn ac roeddent hefyd yn rhan o Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad, gan brif ffrydio cydraddoldeb yn y broses adolygu.

Aeth aelodau tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i bob un o'r grwpiau cyfeirio canlynol hefyd:

- Grŵp Cyfeirio Awdurdodau'r Heddlu
- Grŵp Cyfeirio Gwasanaeth yr Heddlu
- Grŵp Ymarferwyr yr Heddlu
- Grŵp Cyfeirio'r Llywodraeth

Casglu Data

Roedd y data a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb o'r adolygiad o blismona yn cynnwys data meintiol ac ansoddol. Ymhlith y ffynonellau roedd:

- Ymgynghoriadau:
  - Ymgynghori Allanol
  - Ymgynghori Mewnol
- Data o weithdai ar y pedwar maes ffrwd gwaith
- Data Ystadegol (Ffynonellau'r Swyddfa Gartref)
- Grwpiau ffocws a Chyfweliadau

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr

Dull Ymgynghori/Nodi Rhanddeiliaid

Er gwaethaf amserlenni tynn, nod tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb oedd ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Y man cychwyn ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd nodi pwy oedd y rhanddeiliaid, sut y byddai'r adolygiad yn effeithio arnynt a'r ffordd fwyaf addas o ymgysylltu â hwy. Nod defnyddio'r dulliau a amlinellwyd oedd cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb o'r adolygiad er mwyn lleihau'r risg y ceir ymateb negyddol iddo a hefyd er mwyn:

- Cynyddu tryloywder proses ddatblygu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
- Ffocysu a deall anghenion rhanddeiliaid mewnol ac allanol
- Sicrhau bod pawb, yn fewnol ac yn allanol, y mae'r adolygiad yn debygol o effeithio arno yn cael y cyfle i fynegi ei farn, pryderon ac awgrymiadau.

Ymgynghoriadau Mewnol

Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriadau mewnol â nifer o gymdeithasau statudol a chymorth staff allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas yr Uwcharolygwyr, Unsain, Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, Cymdeithas Brydeinig Merched ym maes Plismona, Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Mwslimaidd a Chymdeithas yr Heddlu Hoyw. Ymhlith y sefydliadau eraill yr ymgynghorwyd â hwy roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Gartref.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allanol

Cynhaliodd tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ddigwyddiad ar 31 Gorffennaf 2007, a oedd yn golygu gwahodd nifer o randdeiliaid allweddol a oedd â dealltwriaeth dda o gydraddoldeb a'i bwysigrwydd i'r cyd-destun plismona. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys 62 o unigolion a sefydliadau a allai helpu'r tîm i nodi'r meysydd allweddol oedd yn peri pryder o ran y pedair prif ffrwd gwaith a sut yr oeddent yn effeithio ar feysydd gwahanol amrywiaeth.

Sicrhaodd tîm yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fod gan yr ymgynghoriad ddiben clir; cafodd y canlyniadau eu dadansoddi'n brydlon a chafodd y rhain eu cyfleu i'r rhai a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ar ffurf Adroddiad Gwybodaeth a Gasglwyd ynghyd ag esboniad clir o'r ffordd y byddai'r ymgynghoriad yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Helpodd hyn y tîm adolygu cyffredinol i wella'r broses o ddatblygu canfyddiadau terfynol yr adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

Cafodd y digwyddiad ei strwythuro fel bod gweithdai yn cael eu sefydlu yn cwmpasu'r ffrydiau gwaith; Lleihau Biwrocratiaeth, Plismona yn y Gymdogaeth, Atebolrwydd Lleol a Rheoli Adnoddau. Canolbwyntiwyd ar gael adborth gan y rhanddeiliaid o ran eu pryderon ynghylch pob ffrwd gwaith, yn benodol mewn perthynas â'r saith maes amrywiaeth.

Amlinellir sampl o rai o'r rhanddeiliaid Allanol yr ymgysylltwyd â hwy isod:

- Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence
- Peace Alliance
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cyngor Mwslimiaid Prydain Fawr
- Grŵp Gweithredu Teithwyr Cenedlaethol
- Stonewall
- A:Gender
- Liberty

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr (Ceir rhestr lawn yn Atodiad A)

Canlyniad Ymgynghoriadau Mewnol ac Allanol

- Gwrandawyd ar bryderon a safbwyntiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol a'u nodi
- Cafodd gwybodaeth werthfawr ei chasglu mewn perthynas â'r effaith andwyol a chadarnhaol a allai ddigwydd o ganlyniad i gynnal yr Adolygiad ar y meysydd penodol hyn a rhoi'r argymhellion ar waith
- Cafodd Lleihau Biwrocratiaeth a Rheoli Adnoddau eu cyfuno mewn un gweithdy
- Adroddiad Gwybodaeth a Gasglwyd

Profi Effaith Anghymesur neu Andwyol – Nodwyd drwy Ymgynghoriadau Mewnol ac Allanol

Roedd angen ystyried y materion canlynol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a moesol, yn cwmpasu'r holl feysydd:

- A allai'r dadansoddiad o'r data ansoddol mewn perthynas â'r Adolygiad o Blismona gael effaith wahaniaethol neu andwyol ar y pedwar maes ffrwd gwaith.
- Gallai'r Adolygiad arfaethedig a'r argymhellion a nodwyd fod â goblygiadau cadarnhaol a negyddol i grwpiau lleiafrifol a byddai angen cydbwyso'r rhain cyn gwneud penderfyniad ar effaith gyffredinol debygol yr adolygiad
- A fyddai'r canfyddiadau a'r argymhellion yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol anghyfreithlon.

LLEIHAU BIWROCRATIAETH A RHEOLI ADNODDAU

1. Nodwyd risg os cynyddir disgresiwn swyddogion, gallai fod ymateb negyddol i hyn oherwydd gallai effeithio ar atebolrwydd. Nid oes ffiniau na chanllawiau mewn perthynas â disgresiwn, mae angen dwyn swyddogion i gyfrif ac mae angen i'r cyhoedd weld bod cosbau yn cael eu defnyddio yn erbyn swyddogion sy'n gweithredu y tu allan i'r ffiniau hyn.

2. Risg bosibl y gallai'r adolygiad ganolbwyntio ar y ffurflenni biwrocrataidd a pheidio ag ystyried yr anghymesuredd yn erbyn dynion du y mae biwrocratiaeth yn ei greu. Mae risg bosibl hefyd y gallai ymddiriedaeth a hyder y cymunedau hyn waethygu ymhellach os na ddefnyddir y data a gesglir mewn unrhyw ffordd.

3. Amlygwyd effaith andwyol bosibl os na chaiff achosion o stopio a rhoi cyfrif gyda'r cyhoedd eu cofnodi. Os caiff disgresiwn ei arfer, gallai waethygu'r sefyllfa bresennol lle y mae staff yn cofnodi achosion rhag ofn y ceir cwyn. (mwy o wybodaeth yn yr adran stopio a rhoi cyfrif).

4. Codwyd pryderon gan gynrychiolwyr Sipsiwn Romani a Teithwyr Sipsiwn, oherwydd na chânt eu nodi ar ddata mewn perthynas â monitro ethnigrwydd megis digwyddiadau hiliol yn erbyn y grŵp hwn am eu bod bob amser yn eu nodi'u hunain yn Saeson gwyn ar y ffurflen, ac felly caiff unrhyw ddigwyddiadau yn eu herbyn eu colli yn y data hwn.

5. Pryder y canolbwyntir ar y niferoedd sy'n gysylltiedig â gwybodaeth STOPIO ac na chanolbwyntir yn ddigonol ar y cysylltiad rhwng y swyddogion a chymunedau, ac y caiff y cydberthnasau hyn eu hanwybyddu o dan yr holl ffurflenni i'w cwblhau.

6. Effaith andwyol bosibl os na wneir mwy o waith mewn perthynas â nodi canfyddiad y cyhoedd a'r hyn sydd ei angen yn eu barn hwy. Byddai'r ymgysylltiad hwn yn gwella hyder y cyhoedd.

7. Nodwyd risg bod gwaith papur yr heddlu yn cael effaith ar y gwaith o blismona cymunedau hefyd. Er enghraifft, mae'n ofynnol cwblhau'r ffurflen briodol ar ôl cynnal cyfweliad stopio a chwilio/rhoi cyfrif ar y stryd. Mae'r ffurflen hon yn rhy gymhleth ac yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau hynny y mae'r heddlu yn fwy tebygol o'u stopio (dynion Asiaidd a du ifanc er enghraifft).

8. Nodwyd effaith andwyol bosibl gan y cymunedau a gynrychiolwyd mewn perthynas ag ansawdd y cysylltiad rhwng y swyddog ac aelod o'r gymuned. Ar hyn o bryd, ceir gormod o bwyslais ar wirio blychau a chadw ystadegau a dylid treulio mwy o amser i oruchwylio'r rhyngwyneb rhwng yr heddlu a'r cyhoedd, ond ni fydd hyn yn digwydd heb ddylanwad strategol gan y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Awdurdodau'r Heddlu.

9. Effaith andwyol bosibl ar staff lleiafrifol (ond nid dim ond y staff hynny) yn y gwasanaeth os na fanteisir i'r eithaf ar y broses Adolygiadau Datblygu Perfformiad ac os mai dim ond fel proses fiwrocrataidd y'i hystyrir gan lawer o reolwyr.

10. Risg andwyol bosibl os na fanteisir ar y cyfle yn yr adolygiad hwn i ystyried y System Cofnodi Troseddau Genedlaethol a'r angen i gasglu data monitro ffobig Homoffobig a Thrawsrywiol cyson.

11. Effaith andwyol bosibl os nad ystyrir y fframwaith perfformiad am fod gan y fframwaith hwn lawer o ganlyniadau anfwriadol i rai grwpiau lleiafrifol a gall weithiau anwybyddu ansawdd y troseddau a gaiff eu dwyn gerbron y llys. Gwelid manteision yn sgîl gwrthdroi cyfeiriad targedau a biwrocratiaeth ddilynol, gan roi swyddogion lleol a chymunedau yn gyntaf.

PLISMONA YN Y GYMDOGAETH

12. Pryder posibl y gall proffiliau rolau a gweithgarwch yr heddlu sy'n rhan o'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol effeithio ar grwpiau lleiafrifol. Effaith arall yn sgîl defnyddio adnoddau'n rhy agos at yr ardaloedd lle y ceir llawer o droseddau yw plismona gwaeth mewn ardaloedd lle y ceir llai o droseddau. Felly, gall plismona fod yn rhyw fath o loteri cod post, lle nad yw cymunedau ac ardaloedd sy'n ufuddhau i'r gyfraith yn cael llawer o blismona gweledol, hyd nes bod problem o ran troseddau yn codi, gall ardaloedd canol dinas (lle y mae mwy o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn tueddu i fyw) gael eu plismona'n anghymesur.

13. Effaith andwyol bosibl ar bobl ifanc os nad ymgysylltir â hwy'n fwy. Maent yn gweld agweddau gwahanol ar blismona bob dydd ac mae angen manteisio ar hynny. Nid yw cyfathrebu ac ymddiriedaeth yn iawn ac mae'n rhaid i wasanaeth yr heddlu wneud ymdrech ar y cyd i gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau plismona o ddydd i ddydd.

14. Nodwyd risg mewn perthynas â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Nodwyd bod sipsiwn yn gymuned heb gartref parhaol a'r broblem o ran Plismona yn y Gymdogaeth yw ei fod fel arfer yn canolbwyntio ar ardal ddaearyddol ac mae cymunedau heb gartref parhaol yn amhoblogaidd ymhlith cymunedau sefydlog. Mae angen cael trosolwg rhanbarthol o sipsiwn a theithwyr fel nad dim ond trosglwyddo'r broblem at rywun arall a wna timau plismona lleol.

15. Canfyddir bod troseddu ymhlith ieuenctid yn gwaethygu a bod angen mynd i'r afael ag ef ar lawr gwlad ac nid yn y llysoedd, ac felly dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau presenoldeb gweledol a rhyngweithio. Mae angen bod a wnelo hyn â magu hyder a nodi pobl allweddol er mwyn datblygu cydberthnasau cadarnhaol drwy'r strategaeth Plismona yn y Gymdogaeth i weithio gydag asiantaethau partner allweddol.

16. Caiff oedran ei nodi bellach fel un o feysydd amrywiaeth ac mae angen i wasanaeth yr heddlu fanteisio ar sgiliau pobl ifanc ac ystyried eu hanghenion. Nodwyd hefyd y gall fod yn ddefnyddiol iawn gweithio mewn partneriaeth ac y gall gael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd ar Blismona yn y Gymdogaeth.

17. Mae angen i Blismona yn y Gymdogaeth gymryd sylw o'r cymunedau sy'n tyfu/datblygu a'r effaith ar bobl o'r cymunedau hyn. Mae'n bwysig iawn ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu eu dull o weithredu Plismona yn y Gymdogaeth. Ceir risg andwyol bosibl os nad ymgysylltir â hwy.

18. Risg bosibl ar gyfer y gymuned Drawsrywiol. Amlygwyd nad oes llawer o wybodaeth am faterion Trawsrywedd a bod angen i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu gael hyfforddiant mwy trwyadl ar y pwnc hwn gyda phobl Drawsrywiol yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

19. Gallai Plismona yn y Gymdogaeth fod yn fwy effeithiol pe bai gwasanaeth yr heddlu yn adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir ganddo'n well. Ar hyn o bryd, nid oes digon o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig na merched ar unrhyw reng o wasanaeth yr heddlu.

20. Ceir effaith andwyol bosibl ar gymunedau lleiafrifol megis y cymunedau Hoyw, Lesbaidd, Trawsrywiol a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn perthynas â'r diwylliant rheoli perfformiad yn y gwasanaeth. Mae swyddogion yr heddlu a gaiff eu mesur yn ôl eu perfformiad yn mynd i feithrin cydberthynas wahanol iawn â'r gymuned am eu bod yn canolbwyntio ar gyflawni eu targedau drwy arfer eu pwerau. Gellir dysgu gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, sy'n tueddu i fod â chydberthynas dda â'r gymuned heb lawer o wrthdaro.

21. Ceir canfyddiad negyddol mai dim ond pan geir argyfwng neu pan fydd yn cynnal ymgyrch y mae gwasanaeth yr heddlu yn ymgysylltu â'r gymuned. Mae angen i wasanaeth yr heddlu fod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r gymuned am fod hyn yn arwain at fwy o ymddiriedaeth a hyder a chasglu cudd-wybodaeth.

22. Effaith andwyol bosibl ar Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Merched mewn perthynas â'r cynigion posibl o ran swyddogion cymorth cymunedol gwirfoddol yr heddlu, gan y gallai hyn ddibrisio'r rôl, a allai effeithio ar y cymunedau lleiafrifol hyn.

ATEBOLRWYDD LLEOL

23. Codwyd pryderon nad yw aelodau ifanc o gymunedau yn rhan o'r prosesau penderfynu ar hyn o bryd a bod llawer o'r polisïau y mae'r heddlu yn eu rhoi ar waith yn effeithio arnynt. Dim ond os bydd ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth yn cynyddu y bydd atebolrwydd lleol yn gwella.

24. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â chynyddu disgresiwn swyddogion yr heddlu oherwydd gallai gael effaith negyddol ar atebolrwydd.

Ceir risg na fydd gan y gymuned hyder yng ngwasanaeth yr heddlu mwyach, yn enwedig dynion du ac Asiaidd ifanc y caiff nifer anghymesur ohonynt eu stopio a'u chwilio a'u stopio gan ofyn iddynt roi cyfrif.

25. Mae'r ffaith y caiff gwasanaeth yr heddlu ei lywio gan berfformiad yn rhwystr i ymgysylltu â chymunedau yn enwedig am nad yw'n cyd-fynd â Phlismona yn y Gymdogaeth a chydlyniant cymunedol ac ni ellir ei fesur yn hawdd.

26. Nodwyd effaith bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad ymgynghorir â phobl Drawsrywiol ar faterion plismona lleol, oherwydd ystyrir ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy, ac felly maent yn tueddu i gael eu hepgor o'r broses ar bolisïau a gweithdrefnau allweddol sy'n effeithio arnynt.

27. Anfantais bosibl i rai cymunedau a gynrychiolir gan arweinwyr cymunedol honedig, nid ydynt ond yn rhan o grŵp cul sy'n mynd i gyfarfodydd mewn gwirionedd ac nid ymgysylltir â phobl ar lawr gwlad. Mae'n rhaid i'r llif gwybodaeth o'r heddlu i bob cymuned leol wella – un dull yn unig yw Grwpiau Cynghori Annibynnol, mae'n rhaid defnyddio sianeli ymgysylltu eraill i gyrraedd pob sector o'r gymuned.

28. Risg nad ymgysylltir yn ddigonol â'r heddlu mewn llawer o gymunedau ac mae angen i gymunedau Seisnig, Ewropeaidd, tramorwyr a lleol gyda'i gilydd benderfynu ar yr hyn y maent am i'w heddlu ei wneud.

29. Nodwyd risg gan Awdurdod yr Heddlu Metropolitanaidd a amlygodd y ffaith bod a wnelo atebolrwydd lleol â rheoli disgwyliadau ac nid dim ond â swyddogion lleol yr heddlu yn rhoi gwybod am beth y maent yn atebol ac am beth nad ydynt yn atebol. Mae angen diffinio'r hyn yr ydym am i'r heddlu fod yn atebol amdano.

30. Nodwyd risg gan nifer o aelodau cymunedau o gefndiroedd gwahanol nad yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn gyfrifol, maent yn gwybod sut mae'r system yn gweithio ond nid ydynt yn deall rôl Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Chodau Ymarfer y Ddeddf honno, sy'n darparu'r fframwaith craidd o bwerau'r heddlu a chamau diogelu o ran stopio a chwilio, arestio, cadw, ymchwilio, adnabod a chyfweld â'r rhai dan gadwad. Os na cheir esboniad o'r hyn y mae'r heddlu yn gyfrifol amdano, yna ni ellid disgwyl i'r cyhoedd wybod beth y mae ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl gan yr heddlu. Dyma rôl yr heddlu ac awdurdodau'r heddlu.

31. Nodwyd risg gan y gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig fod gennym nifer o gymunedau amrywiol, sy'n meddu ar wybodaeth amrywiol; mae'n anodd gwybod ar ba lefel i anelu esboniad o rôl a chyfrifoldebau'r heddlu.

32. Amlygwyd problem bosibl gan aelodau'r grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Rhyw y dylai pobl deimlo'n gyfforddus yn mynd at yr heddlu i roi gwybod am droseddau h.y. Troseddau hiliol, Trais rhywiol, ac ati, os bydd atebolrwydd lleol yn gweithio. Yr her yw meithrin cydberthnasau ystyrlon.

33. Codwyd pryderon gan aelod ifanc o gymuned a amlygodd y ffaith bod canfyddiad nad yw dynion a merched ifanc yn teimlo bod ganddynt unrhyw ymddiriedaeth yn yr heddlu. Nid ydynt yn deall sut mae'r heddlu yn gweithio a'i fod yno i'w diogelu.

34. Codwyd pryderon posibl gan aelodau o gymunedau a oedd yn cynrychioli meysydd amrywiaeth gwahanol fod angen symleiddio'r broses atebolrwydd. Mae angen i'r cyhoedd deimlo bod yr heddlu yn atebol iddynt am eu camau gweithredu ac mae angen i'r adolygiad ymdrin â hyn.

35. Nodwyd effaith bosibl gan Gymdeithas yr Heddlu Hoyw a amlygodd y broblem o ran y system gwyno. Canfuwyd mai'r unig ffordd o gwyno oedd gwneud cwyn ffurfiol, a gallai gymryd amser hir i'w phrosesu a gallai gael ei chyfeirio yn y pen draw at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a'i ogwydd tuag at Loegr ganol.

36. Nodwyd risg gan yr holl gymunedau cynrychioliadol fod angen i awdurdodau'r heddlu gynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n well. Mae'r awdurdodau yn wleidyddol iawn ac mae cynrychiolwyr o'r un pleidiau yn eistedd gyda'i gilydd. Amlygwyd bod problem yn y system bresennol yn y ffaith bod gan bobl mewn rhai awdurdodau'r heddlu y pŵer i flaenoriaethu'r hyn a wna'r heddlu. Mae hyn yn golygu mai barn y mwyafrif sy'n llywio'r blaenoriaethau plismona yn hytrach na barn lleiafrifoedd.

Stopio a Rhoi Cyfrif

Oherwydd nodwyd stopio a rhoi cyfrif yn faes penodol a ystyriwyd yn yr Adroddiad Interim, roedd yn bwysig neilltuo adran yn yr adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r pwnc hwn. Nododd Argymhelliad 9:

Argymhelliad 9:

Bydd yr Adolygiad yn ystyried ar fyrder sut y gellir gweinyddu stopio a rhoi cyfrif/chwilio yn well a lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag ef yn sylweddol. Wrth wneud hyn, byddaf yn ymgynghori'n eang (ac fel rhan o'm Hasesiad presennol o Effaith ar Gydraddoldeb) ag arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol o amrywiaeth eang o gymunedau ac o fewn y gwasanaeth.

Er mwyn i'r adran hon gael ei deall yn glir, mae'n bwysig nodi bod Syr Ronnie yn cynnig newid y broses o gofnodi Stopio a Rhoi Cyfrif ac nid Stopio a Chwilio. Ni fydd yr olaf, sy'n amlwg yn fwy ymwthiol, yn newid, gyda chofnod ysgrifenedig yn cael ei lunio yn y fan a'r lle, er y caiff technoleg ei defnyddio ryw bryd i ystwytho'r broses hon.

Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau i nodi unrhyw effaith andwyol bosibl y gallai nifer o gymunedau lleiafrifol ei hwynebu pe câi newidiadau i'r dulliau cofnodi eu

rhoi ar waith. Y cwestiwn yr oedd angen ei ofyn oedd a oedd y broses o gofnodi hyn yn fiwrocratiaeth angenrheidiol neu ddiangen. Mae Stopio a Rhoi Cyfrif yn ffordd o ddangos atebolrwydd, ond mae'n defnyddio adnoddau hefyd. Nod yr ymgynghoriadau oedd ceisio barn ar sut y gallai'r gwasanaeth leihau biwrocratiaeth a hyrwyddo prosesau busnes gwell gan gadw'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolyn a'r fiwrocratiaeth angenrheidiol/priodol. Cyfeiriodd Syr Ronnie, yn yr adroddiad, at y posibilrwydd o roi mwy o ddisgresiwn i swyddogion yr heddlu yn eu proses gwneud penderfyniadau ond eglurodd fod diddordeb arbennig ganddo, nid dim ond mewn lleihau biwrocratiaeth, ond mewn gwella ansawdd cysylltiad yr heddlu â'r cyhoedd.

Profi Effaith Anghymesur neu Andwyol – Nodwyd drwy Ymgynghoriadau Mewnol ac Allanol ar Stopio a Rhoi Cyfrif

Nodir isod rai o'r ffactorau allweddol a ddeilliodd o'r ymgynghoriadau ar y newidiadau arfaethedig i Stopio a Rhoi Cyfrif:

37. Cafwyd neges glir gan nifer o'r rhai a fu'n bresennol na roddwyd pwyslais ar gyfleu hawliau unigolion i'r cymunedau mewn perthynas ag achosion o Stopio yn gyffredinol.

38. Ar hyn o bryd, ni fu llawer o waith, os o gwbl, i ddadansoddi'r data mewn perthynas â Stopio a'r effaith y mae wedi'i chael ar y cymunedau, yn enwedig y gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

39. Roedd ansawdd y cysylltiad yn fater allweddol a gododd fel thema gyson. Nododd nifer o'r rhai a fu'n bresennol nad oedd eu cymunedau yn pryderu am y ffordd y câi'r wybodaeth ei chasglu ond am y ffordd broffesiynol yr oedd swyddog yr heddlu yn rhyngweithio â'r unigolyn tra'n ei Stopio, a chyfeiriwyd at hyn fel y cysylltiad critigol. Cytunodd y rhan fwyaf o'r rhai a fu'n bresennol fod angen i'r broses Stopio a Rhoi Cyfrif fod yn dryloyw ac atebol, ond cafwyd consensws nad oedd y dulliau cyfredol gan ddefnyddio'r ffurflenni papur yn gweithio'n gadarn.

40. Nodwyd hyfforddi a datblygu swyddogion fel maes yr oedd angen ei ystyried yn benodol o ran y cysylltiad Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif. Ystyrid bod hyfforddiant a goruchwyliaeth yn elfennau pwysig iawn wrth ymdrin â'r materion yn gysylltiedig â'r ffaith bod cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio oherwydd ymddygiad rhai swyddogion yr heddlu a staff o ran eu hagweddau wrth iddynt gynnal achosion o Stopio a Rhoi Cyfrif neu Stopio a Chwilio.

41. Amlygwyd pryderon mewn perthynas â'r angen i ymgysylltu â chymunedau'n fwy o ran y defnydd o Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif a sicrhau mwy o gefnogaeth iddo. Byddai hyn yn golygu defnyddio plismona'n seiliedig ar gudd-wybodaeth

a chyfathrebu â'r gymuned yn agored ynghylch sut mae'r heddlu yn bwriadu mynd i'r afael ag ardaloedd lle y ceir troseddoldeb sylweddol. Ni ellid parhau i ddefnyddio Stopio a Rhoi Cyfrif fel mesur diogelwch, yn hytrach na defnydd penodol.

42. Cafwyd barn gymysg ynghylch defnyddioldeb Stopio a Rhoi Cyfrif a hawl y swyddog i stopio a herio rhywun ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y fiwrocratiaeth o orfod llenwi ffurflen bob tro yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith o gasglu gwybodaeth a bod angen dull cofnodi mwy anffurfiol ond ag atebolrwydd cymharol.

43. Cymeradwyodd rhai cynrychiolwyr y farn bod angen newid Stopio a Rhoi Cyfrif oherwydd yr effaith ar gysylltiad yr heddlu â'r cyhoedd. Mae angen gwahaniaethu rhwng y defnydd o ffurflenni lle y mae'r heddlu yn arfer pŵer cymhellol, nad yw'n wir am Stopio a Rhoi Cyfrif; cafwyd anogaeth gan y grŵp i ystyried dulliau amgen.

44. Codwyd y pwynt mewn perthynas â diben gwreiddiol Stopio a Rhoi Cyfrif, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag atebolrwydd swyddogion yr heddlu wrth gynnal achosion o Stopio. Cyflwynwyd y broses o gofnodi achosion o Stopio yn wreiddiol o dan argymhellion 61-63 o'r adroddiad ar Ymchwiliad Stephen Lawrence i wella atebolrwydd drwy sicrhau bod gwasanaeth yr heddlu ac awdurdodau'r heddlu yn monitro ac yn dadansoddi'r cofnodion hyn.

45. Mae angen ystwytho dulliau o ddwyn yr heddlu i gyfrif ac ystyriwyd bod gwella'r cysylltiad â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn elfen hanfodol wrth wella ymddiriedaeth a hyder.

46. Nid ystyriwyd bod technoleg yn ateb y broblem o fynd i'r afael ag anghymesuredd yn llwyr, roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar edrych ar yr achosion o aneffeithlonrwydd yng ngwasanaeth yr heddlu wrth goladu a dadansoddi'r data a gasglwyd gan y ffurflenni.

Y cwestiwn allweddol y mae angen ei ateb yw a yw cofnodi data ar ffurflenni Stopio a Rhoi Cyfrif mewn gwirionedd yn rhwystro swyddogion rhag ymchwilio (oherwydd yr amser a gymerir i lenwi'r ffurflenni) ac a yw'r broses yn niweidio cysylltiadau'r heddlu a'r cyhoedd oherwydd cofnodir eu data. Agwedd arall y mae angen ei hystyried yw'r bygythiad terfysgol presennol a rôl Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif mewn cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau.

Mae lle i adolygu hyn yn sylweddol, a hynny'n sicr, gyda'r opsiwn o ddileu'r broses fiwrocrataidd gyfan a fyddai'n helpu i sicrhau y caiff disgresiwn a barn broffesiynol eu harddel eto gan swyddogion yr heddlu ond gallai hyn gael effaith andwyol ar y cymunedau, yn enwedig o ran atebolrwydd. Mae nifer o gynigion sydd wedi'u hystyried ar gyfer y newidiadau i gofnodi Stopio a Rhoi Cyfrif. Yr argymhelliad a gyflwynir yw:

Argymhelliad 24:

Dylid cael gwared â'r ffurflen gynhwysfawr gyfredol ar gyfer Stopio a Rhoi Cyfrif a rhoi'r mesurau canlynol ar waith yn ei lle:

a) Dylai unrhyw swyddog sy'n gofyn i unigolyn roi cyfrif amdano'i hun roi tystiolaeth o'r cysylltiad i'r unigolyn hwnnw ar ffurf cerdyn busnes neu rywbeth tebyg, a defnyddio Airwave i recordio'r cysylltiad, gan gynnwys ethnigrwydd yr unigolyn er mwyn gallu monitro anghymesuredd; a

b) Dylai swyddogion goruchwylio samplu'r recordiadau hyn ar hap.

Dylid treialu'r cynigion hyn yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a'u gwerthuso erbyn diwedd haf 2008.

Dylai'r broses Stopio a Chwilio gael ei ystwytho wrth i dechnoleg newydd ddod i'r amlwg, megis Cynorthwy-ydd Digidol Personol, camerâu, atebion sganio ac ati. Byddai manteision i'r cyhoedd a'r heddlu pe bai pob cysylltiad yn cael ei gofnodi. Yn y cyfamser, fodd bynnag, dylid parhau i wneud adroddiad ysgrifenedig llawn o achosion o Stopio a Chwilio a'i roi i'r unigolyn a gafodd ei chwilio.

Byddai hyn yn cynnal yr agwedd atebolrwydd cyhoeddus ar y broses Stopio a Rhoi Cyfrif, ond ni fyddai'n rhoi llawer o faich ar swyddog unigol. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r cynnig hwn ar waith, mae angen gweithredu'r ffactorau uchod er mwyn dileu neu leihau unrhyw effaith andwyol.

Yn gryno, ymddengys fod cyfranogwyr yn cytuno bod angen i Stopio a Rhoi Cyfrif, ar ba ffurf bynnag y bydd, roi sylw i atebolrwydd, hyfforddi a datblygu, goruchwyliaeth well, cyfleu hawliau unigol yn well a phlismona'n seiliedig ar gudd-wybodaeth er mwyn sicrhau y caiff pwerau eu harfer mewn ffordd a fyddai mor effeithiol â phosibl o ran lleihau troseddau, ond a fyddai hefyd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder ymhlith cymunedau lleiafrifol.

Profi Effaith Anghymesur neu Andwyol drwy Ddata Ystadegol

Data Ystadegol ar gyfer yr Adolygiad o Blismona

STOPIO A CHWILIO/RHOI CYFRIF

*(Data ar **HIL** – stopio a chwilio/rhoi cyfrif) oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder – ystadegau ar Hil a'r System Cyfiawnder Troseddol 2006 (data adran 95)*

Roedd argymhelliad 61 o'r Adroddiad ar Ymchwiliad Stephen Lawrence a diwygiad dilynol i God A Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn cynnwys gofyniad i swyddogion ym mhob heddlu gofnodi pob achos o stopio gan gynnwys Stopio gwirfoddol ac anstatudol erbyn 1 Ebrill 2005. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu cyhoeddi data ar yr holl achosion o Stopio erbyn y flwyddyn nesaf (2008).

2005/06:
878,153 o achosion o Stopio a Chwilio wedi'u cofnodi gan yr heddlu o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a deddfwriaeth arall.
135,262 – Du (15%)
69,274 – Asiaidd (8%)
14,101 – Tarddiad ethnig arall

Cododd nifer yr achosion o Stopio a Chwilio 3.4% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyfan:
2004/05 – **849,027**
2005/06 – **878,153**

Dyma'r ffigur uchaf ers 1998/99, pan gofnodwyd 1,037,271 o achosion o Stopio a Chwilio.

I'r mwyafrif helaeth o heddluoedd, mae'n amlwg bod nifer yr achosion o Stopio a Chwilio a gofnodwyd o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol yn uwch ar gyfer pobl dduon nag ar gyfer pobl wyn.

Roedd pobl dduon bron 7 gwaith yn fwy tebygol o gael eu chwilio na phobl wyn yn 2005/06 (cymhareb 6 gwaith yn 2005/06). Ni chesglir data yn ganolog o ran Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif ar ryw, anabledd, oedran, ffydd/crefydd, tueddfryd rhywiol na thrawsrywedd.

Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd ar Stopio a Rhoi Cyfrif. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ddata lleol a all roi darlun cryno o ran unrhyw anghymesuredd. O'r data isod, ymddengys fod anghymesuredd yn nifer y dynion ifanc a gaiff eu stopio ac y gofynnir iddynt roi cyfrif amdanynt eu hunain.

Stopio a Rhoi Cyfrif - data cryno

	Cyfnod	Stopio a Chwilio	Stopio a Rhoi Cyfrif
Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd	Mai 06–Ebrill 07	361,639 (adio 17,413 ychwanegol os byddwch am gyfrif achosion o stopio o dan Adran 60 sy'n rhoi cyfanswm o 379,052)	288,185
Heddlu Dorset	Ebrill 06–Mawrth 07	7,110	2,243
Heddlu Hampshire	Ebrill 06–Mawrth 07	21,846	59,325

Data Dorset (Stopio/Rhoi Cyfrif)

- o'r 2243 o bobl a gofnodwyd ar gyfer Stopio/Rhoi Cyfrif, roedd 1949 ohonynt yn ddynion
- roedd 1646 o dan 25 oed – 58% o'r cyfanswm

Plismona yn y Gymdogaeth

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)

Nododd cyhoeddiad y Llywodraeth "Plismona Cymdogaeth, eich heddlu; eich cymuned; ein hymrwymiad" (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2006) darged i gael cyfanswm o 24,000 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu erbyn mis Mawrth 2008, wedi'u hariannu'n bennaf drwy'r Gronfa Plismona yn y Gymdogaeth. Dyrannodd cyllideb 2006 arian ychwanegol yn 2006-07 i gyflymu'r broses o recriwtio swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu i ddarparu cyfanswm o 16,000 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru a Lloegr erbyn diwedd mis Ebrill 2007. Nododd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 27 Tachwedd 2006 na fyddai disgwyl mwyach i heddluoedd gynyddu nifer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu y tu hwnt i 16,000.

Daw'r ffigurau ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o Nerth Gwasanaeth yr Heddlu 31/3/07: Bwletin ystadegol y Swyddfa Gartref 13/07. Ar 31 Mawrth 2007, roedd 232,948 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yn y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

	Canran	Niferoedd y staff
Rhengoedd yr heddlu	61%	141,892
Staff yr heddlu	32%	75,178
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	6%	13,497
Wardeiniaid traffig	0.3%	764
Swyddogion dynodedig	0.7%	1,617

Cyfanswm nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oedd 13,497, sef cynnydd o 99% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Nerth swyddogion lleiafrifoedd ethnig yr heddlu (gan gynnwys secondiadau'r gwasanaeth canolog) yn ôl rheng ar 31 Mawrth 2007, Cymru a Lloegr.

Rheng	Canran yn ôl nerth swyddogion lleiafrifoedd ethnig
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu	3.2
Prif Uwcharolygwyr	2.6
Uwcharolygwyr	2.4
Prif Arolygwyr	2.8
Arolygwyr	2.4
Rhingylliaid	2.9
Cwnstabliaid	4.2

Cyfanswm nerth lleiafrifoedd ethnig 3.9

Ar 31 Mawrth 2007, roedd 91,056 o staff yr heddlu cyfwerth ag amser llawn mewn rolau ategol. Mae hwn yn gynnydd o 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cyfrif am 15 y cant o'r cyfanswm hwn.
- Roedd swyddogion dynodedig yn cyfrif am 2 y cant
- Roedd wardeiniaid traffig yn cyfrif am 1 y cant o'r cyfanswm hwn.

Cynyddodd niferoedd staff yr heddlu (h.y. cyflogeion yr heddlu nad ydynt yn swyddogion, heb gynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, wardeiniaid traffig a swyddogion dynodedig) 2% o gymharu ag 31 Mawrth 2006. Cynyddodd nifer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu 99% i 13,497 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2007, ar ôl cynnydd o 9% yn y flwyddyn flaenorol.

Rhyw – Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mae 58% o holl staff yr heddlu yn ferched, sy'n gyfran lawer uwch na'r gyfran yn rhengoedd swyddogion yr heddlu.

Mae 43% o holl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ferched.

Hil – Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Ar 31 Mawrth 2007, roedd 6,563 o staff yr heddlu yn dod o leiafrifoedd ethnig, gan gyfrif am 7% o'r cyfanswm. O fewn grŵp staff yr heddlu, mae 12% o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dod o leiafrifoedd ethnig, sef cyfran uchel o gymharu â staff eraill yr heddlu a swyddogion yr heddlu.

Mae 27% o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yr Heddlu Metropolitanaidd (neu 3,694 o swyddogion), sef y ganran fwyaf o gymharu â heddluoedd eraill. Yn heddlu Manceinion Fwyaf y ceir y ganran uchaf ond un, sef 6% (neu 763 o swyddogion).

Yn sgîl dadansoddi'r data ystadegol, os caiff yr argymhellion arfaethedig eu rhoi ar waith o ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, caiff hyn effaith gadarnhaol ar bob maes amrywiaeth.

Nid oes data ystadegol ar gael ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ran anabledd, tueddfryd rhywiol, ffydd/crefydd, trawsrywedd nac oedran.

Cynrychiolaeth o fewn Awdurdodau'r Heddlu

Pa ddata meintiol perthnasol sydd wedi'i ystyried?	
Oedran	*Adolygiad Hamer o'r Broses o Ddethol a Phenodi Aelodau Annibynnol o Awdurdodau'r Heddlu:* • Dim ond 4 ymgeisydd llwyddiannus yng nghylch 2003 oedd rhwng 21 a 30 oed. (Oherwydd proffil oedran y cynghorwyr yn rhannol o leiaf, sy'n cyfrif am 52% o'r aelodaeth ar hyn o bryd) Data'r Adran Materion Cyfansoddiadol 2003/4 ar ynadon (bydd data 2004/5 ar gael yn fuan) • Mae 82% o ynadon dros 50 oed. **Mae ffigurau diweddaraf Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar gyfer 2007 wedi'u nodi isod**
Anabledd	Dim ar gael
Rhyw	Data Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar Aelodaeth o Awdurdodau'r Heddlu: • Mae 29.3% o aelodau yn ferched (Rhag 2005) • Mae bron 20% o aelodau sy'n ferched yn ynadon. Data'r Adran Materion Cyfansoddiadol 2003/4 ar ynadon (bydd data 2004/5 ar gael yn fuan) • Mae bron 50% o ynadon (nid dim ond aelodau Awdurdodau'r Heddlu) yn ferched. **Mae ffigurau diweddaraf Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar gyfer 2007 wedi'u nodi isod**

Pa ddata meintiol perthnasol sydd wedi'i ystyried? *(parhad)*	
Hil	Data Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar aelodaeth o awdurdodau'r heddlu • Mae 8.5% o aelodau o awdurdodau'r heddlu yn dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig • Ond, dim ond un cadeirydd awdurdod yr heddlu a ddaw o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a dim ond un clerc/ Prif Weithredwr • Mae 66% o aelodau sy'n dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn aelodau annibynnol • Mae 20% o aelodau annibynnol yn dod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Data'r Adran Materion Cyfansoddiadol 2003/4 ar ynadon (bydd data 2004/5 ar gael yn fuan) • Roedd gan 9.66% o'r rhai a benodwyd (fel ynadon) darddiad lleiafrif ethnig Data Cymdeithas Llywodraeth Leol ar gynghorwyr • Dim ond 3% o gynghorwyr yn genedlaethol sy'n dod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig **Mae ffigurau diweddaraf Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar gyfer 2007 wedi'u nodi isod**
Crefydd/Cred	Dim ar gael
Tueddfryd Rhywiol	Dim ar gael
Pa ddata ansoddol perthnasol sydd wedi'i ystyried?	
Oedran	*Adolygiad Hamer o'r Broses o Ddethol a Phenodi Aelodau Annibynnol o Awdurdodau'r Heddlu*
Anabledd	Dim ar gael
Rhyw	Fframwaith Cymwyseddau Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
Hil	*Rhaglen Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu (Gorffennaf 2005 – y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu)* *Fframwaith Cymwyseddau Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu* *Adolygiad Hamer o'r Broses o Ddethol a Phenodi Aelodau Annibynnol o Awdurdodau'r Heddlu*

Pa ddata meintiol perthnasol sydd wedi'i ystyried? *(parhad)*	
Crefydd/Cred	Dim ar gael
Tueddfryd Rhywiol	Dim ar gael
Pa fylchau mewn data/gwybodaeth a nodwyd?	
Oedran	Casglwyd eisoes
Anabledd	Gwybodaeth heb ei chasglu
Rhyw	Casglwyd eisoes
Hil	Casglwyd eisoes
Crefydd/Cred	Gwybodaeth heb ei chasglu
Tueddfryd Rhywiol	Gwybodaeth heb ei chasglu
Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gomisiynu ymchwil?	
Oedran	Barn gychwynnol Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu yw y dylid casglu'r wybodaeth hon o hyn ymlaen
Anabledd	Barn gychwynnol Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu yw y dylid casglu'r wybodaeth hon o hyn ymlaen
Rhyw	Casglwyd eisoes
Hil	Casglwyd eisoes
Crefydd/Cred	Barn gychwynnol Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu yw y dylid casglu'r wybodaeth hon o hyn ymlaen
Tueddfryd Rhywiol	Barn gychwynnol Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu yw y dylid casglu'r wybodaeth hon o hyn ymlaen

Bu awdurdodau'r heddlu yn araf i wella amrywiaeth eu haelodaeth etholedig ac annibynnol. Yn 1999, dim ond 13 (3.5%) o gynghorwyr lleiafrifoedd ethnig a gafwyd, 33 (15.7%) o aelodau annibynnol lleiafrifoedd ethnig a dim ond un ynad lleiafrif ethnig. Mae hyn yn cymharu â 359 o aelodau etholedig gwyn, 179 o aelodau annibynnol gwyn a 122 o ynadon gwyn.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 2003, roedd y ffigurau hyn wedi newid i 16 (4.2%) o aelodau etholedig, 46 o aelodau annibynnol (21.5%) a chwe ynad lleiafrifoedd ethnig. Y ffigurau cymharol ar gyfer aelodau etholedig gwyn oedd 379, roedd 168 o aelodau annibynnol gwyn a 124 o ynadon gwyn. Ym mis Medi 2007, roedd y ffigurau ar gyfer aelodau lleiafrifoedd ethnig annibynnol wedi lleihau i 40 (18.5%) a chafwyd 176 o aelodau annibynnol gwyn. Roedd y ffigurau ar gyfer aelodau sy'n ferched yn debyg yn 1999. Cafwyd 87 (23.1%) o ferched a oedd yn gynghorwyr, 84 (40%) a oedd yn aelodau annibynnol a 24 (19.5%) a oedd yn ynadon.

Ym mis Gorffennaf 2003, y ffigurau oedd 91 (23%) o gynghorwyr, 99 (46.3%) o aelodau annibynnol, 37 (28.5%) o ynadon ac ym mis Medi 2007, cafwyd 87 (40.3%) o aelodau annibynnol. Mae gan rai awdurdodau'r heddlu gymunedau amrywiol a chyfoethog ac mae'r broses o recriwtio aelodau annibynnol wedi ychwanegu'n sylweddol at amrywiaeth o ran aelodau mewn rhai awdurdodau'r heddlu.

Nodir isod y ffigurau diweddaraf sydd wedi'u darparu gan Gymdeithas Awdurdodau'r Heddlu.

Dadansoddiad o Amrywiaeth – Tachwedd 2007 (ffynhonnell Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Rhagfyr 2007)

Mae'r data canlynol yn rhoi dadansoddiad demograffig o aelodau awdurdodau'r heddlu

YSTOD OEDRAN

	Cynghorwyr	Annibynnol	Ynadon	Cyfanswm
21-30	0%	1%	0%	1%
31-40	4%	10%	0%	5%
41-50	13%	24%	2%	14%
51-60	24%	30%	27%	27%
61-70	45%	34%	71%	46%
71+	14%	1%	0%	7%

	Aelodau'r Cynulliad	Cynghorwyr	Annibynnol	Ynadon	Cyfanswm
21-30	0	0	2	0	2
31-40	0	10	18	0	28
41-50	0	31	42	2	75
51-60	3	58	54	26	141
61-70	3	107	61	70	241
71+	0	32	2	0	34
Cyfanswm	**6**	**238**	**179**	**98**	**521**

163 Heb ei Nodi

RHYW - CYNRYCHIOLAETH MERCHED

	Cynghorwyr	Annibynnol	Ynadon	Cyfanswm
%	21.3%	43.3%	33.3%	30.7%

	Aelod Cynulliad	Cynghorwyr	Annibynnol	Ynadon	Cyfanswm
Merched	6	72	90	42	210

CYNRYCHIOLAETH POBL DDUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

	Cynghorwyr	Annibynnol	Ynadon	Cyfanswm
%	3.6%	18.3%	5.6%	8.5%

	Aelod Cynulliad	Cynghorwr	Aelod Annibynnol	Ynad Heddwch	Cyfanswm
Asiaidd – Arall		1	6	2	9
Bangladeshaidd			1		1
Du – Affricanaidd			3		3
Du – Caribïaidd	1	2	7		10
Tsieineaidd		1	3		4
Indiaidd		1	8	3	12
Gwyddelig		1			1
Cymysg – Arall			1	1	2
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd			2		2
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd		1		1	2
Pacistani		4	6		10
Gwyn – Prydeinig	11	315	164	116	606
Gwyn – Gwyddelig		1	4		5
Gwyn – Arall		10	2	3	15
Du – Arall		1	1		2
Cyfanswm	12	338	208	126	684

Ar hyn o bryd, nid oes data ystadegol ar gael ar gyfer meysydd cydraddoldeb ffydd/ crefydd, tueddfryd rhywiol, anabledd a thrawsrywedd.

Canolbwyntiwyd yn sylweddol ar awdurdodau'r heddlu o dan ffrwd gwaith Atebolrwydd Lleol ac os caiff strwythur awdurdodau ei newid, mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau na cheir effaith andwyol ar gynrychiolaeth gyffredinol grwpiau lleiafrifol. Mae'r ystadegau uchod yn nodi mai cynrychiolaeth gyfyngedig a geir eisoes ac mae angen pwysleisio creu cyrff llywodraethu sy'n wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae angen gwella'r ffigurau uchod ac mae angen rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i gyflawni hyn.

Effaith Anghymesur neu Andwyol a Nodwyd ar y Meysydd Amrywiaeth Gwahanol

Wrth gynnal y rhan hon o'r asesiad, mae'r cynigion a nodir yn yr Adolygiad wedi'u gwerthuso yn erbyn y data meintiol ac ansoddol a oedd ar gael ar y grwpiau gwahanol y gellid effeithio arnynt o bosibl, megis Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Merched, Pobl Anabl, Tueddfryd Rhywiol, Ffydd/Crefydd, Oedran a Thrawsrywedd. Mae'r data wedi'i ddadansoddi ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall a'i farnu o ran a yw'r cynigion yn debygol o arwain at ganlyniadau negyddol mawr ar gyfer grwpiau penodol.

HIL

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Hil:

47. Nodwyd effaith andwyol bosibl o ganlyniad i'r ffaith bod gwasanaeth yr heddlu yn canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad er anfantais i Gydraddoldeb Hiliol h.y. targedau Stopio a Chwilio mewn rhai heddluoedd.

48. Effaith andwyol bosibl os cynyddir disgresiwn swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gallai fod ymateb negyddol i hyn a gallai effeithio ar atebolrwydd swyddogion i'r cyhoedd. Mae risg hefyd y gallai ymddiriedaeth a hyder y cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig y mae mesurau megis Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif yn cael effaith anghymesur arnynt waethygu hyd yn oed ymhellach. Mae angen cymryd camau i ymdrin â'r effaith hon.

49. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r broses o gofnodi achosion o Stopio a Rhoi Cyfrif. Ceir perygl y gallai gael effaith negyddol ar ymddiriedaeth a hyder cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig oherwydd ceir pryder bod hiliaeth sefydliadol yn dal i fodoli yn y gwasanaeth ac y gallai rhai swyddogion gamddefnyddio'r pŵer hwn. Dylid cynllunio camau i ymdrin â hyn.

50. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas ag ansawdd y cysylltiad rhwng y swyddog ac aelod o'r gymuned. Ystyriwyd bod hyn yn broblem fawr ac mae angen cymryd camau cymesur i sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith i ddileu neu leihau'r effaith andwyol.

51. Effaith andwyol bosibl ar aelodau awdurdodau'r heddlu a staff sy'n dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig os derbynnir y cynigion i ddiwygio awdurdodau'r heddlu. Hyd yma, mae aelodau annibynnol wedi gweithredu fel mesur diogelu i sicrhau ymagwedd amhleidiol a gellid colli hyn pe mabwysiedid dulliau penodi gwahanol. Gallai fod anghydbwysedd o ran aelodau awdurdodau'r heddlu sy'n dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn perthynas ag ynadon, cynghorwyr, aelodau annibynnol a staff awdurdodau'r heddlu.

52. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o fewn awdurdodau'r heddlu a'r sefydliad.

53. Risg andwyol bosibl y caiff amrywiaeth ei golli fel elfen o fewn arolygiadau os daw arolygiadau yn fwy cydweithredol.

54. Effaith andwyol bosibl os nad yw'r ffrwd gwaith Plismona yn y Gymdogaeth yn ystyried y cysylltiad pwysig rhwng gwasanaethau diogelu, yn enwedig y Strategaeth Wrthderfysgaeth a'r pwysigrwydd o ran ei rhoi ar waith drwy gyfrwng Plismona yn y Gymdogaeth.

55. Effaith andwyol bosibl ar gadw staff lleiafrifol a staff eraill os na wneir ymdrech gydwybodol i ehangu rôl swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn swyddi parhaol eraill.

56. Effaith andwyol bosibl os nad yw cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cymryd mwy o ran ym mhrosesau penderfynu eu heddluoedd lleol, am fod llawer o'r polisïau a gaiff eu rhoi ar waith yn effeithio arnynt.

57. Nodwyd risg mewn perthynas â'r ffaith nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau o ran Stopio a Rhoi Cyfrif, nad ydynt yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol a bod angen symleiddio'r system.

58. Risg andwyol bosibl i staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig os ceir ymgais i leihau biwrocratiaeth, gallai hyn gael effaith anuniongyrchol ar staff yr heddlu, sy'n tueddu i fod â chynrychiolaeth uwch o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn swyddi gradd is.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Hil o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Mae rhai meysydd allweddol y mae'r adolygiad yn eu hystyried megis Stopio a Rhoi Cyfrif, ymgysylltu â chymunedau a chynyddu disgresiwn swyddogion a allai fod â rhai goblygiadau negyddol, ond bydd angen rheoli'r rhain yn y ffordd gywir a chymryd camau cadarnhaol i liniaru effaith andwyol. O ganlyniad i rai o'r cynigion a gyflwynir yn yr Adolygiad, dylai gwasanaethau plismona wella i'r cymunedau lleiafrifol.

RHYW

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Ryw:

59. Effaith andwyol bosibl ar gadw merched, os na wneir ymdrech gydwybodol i ehangu rôl swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn swyddi parhaol eraill.

60. Risg andwyol bosibl i ferched os ceir ymgais i leihau biwrocratiaeth; gallai hyn gael effaith anuniongyrchol ar staff yr heddlu, sy'n tueddu i fod â chynrychiolaeth uwch o ferched mewn rhai heddluoedd.

61. Nodwyd risg mewn perthynas â'r ffaith nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau o ran Stopio a Rhoi Cyfrif, nad ydynt yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol a bod angen symleiddio'r system.

62. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth merched o fewn awdurdodau'r heddlu a'r sefydliad.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Rhyw o ganlyniad i'r adolygiad hwn. O ganlyniad i'r Adolygiad, gallai gwasanaethau plismona wella i'r cymunedau lleiafrifol.

ANABLEDD

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar anabledd:

63. Effaith andwyol bosibl os nad yw cymunedau sy'n cynrychioli grwpiau anabl yn cymryd mwy o ran ym mhrosesau pennu blaenoriaethau lleol eu heddluoedd. Gallai fod yn bosibl bod awdurdodau'r heddlu a heddluoedd yn torri Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Diwygio) 2005.

64. Nodwyd risg mewn perthynas â'r ffaith nad yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol a bod angen symleiddio'r system.

65. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth pobl anabl o fewn awdurdodau'r heddlu a'r sefydliad ei hun er mwyn rhoi darlun o farn cymunedau.

66. Risg andwyol bosibl i staff anabl os ceir ymgais i leihau biwrocratiaeth; gallai hyn gael effaith anuniongyrchol ar staff yr heddlu.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Anabledd o ganlyniad i'r adolygiad hwn. O ganlyniad i'r Adolygiad, gallai gwasanaethau plismona wella i'r cymunedau pobl anabl.

TUEDDFRYD RHYWIOL

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Dueddfryd Rhywiol:

67. Nodwyd risg mewn perthynas â'r ffaith nad yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol, a bod angen symleiddio'r system.

68. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth pobl o gymunedau hoyw a lesbaidd o fewn awdurdodau'r heddlu a'r sefydliad ei hun er mwyn rhoi darlun o farn cymunedau.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Tueddfryd Rhywiol o ganlyniad i'r adolygiad hwn. O ganlyniad i'r Adolygiad, gallai gwasanaethau plismona wella i'r cymunedau hoyw a lesbaidd.

FFYDD/CREFYDD

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Ffydd/Crefydd:

69. Nodwyd effaith andwyol bosibl ar gymunedau Ffydd mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r broses o gofnodi achosion o stopio a rhoi cyfrif. O ystyried y bygythiad terfysgol presennol, gallai hyn gael effaith benodol o bosibl ar gymunedau Mwslimaidd. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas ag ansawdd y cysylltiad rhwng y swyddog ac aelod o'r gymuned.

70. Effaith andwyol bosibl ar gadw, os na wneir ymdrech gydwybodol i ehangu rôl swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn swyddi parhaol eraill.

71. Effaith andwyol bosibl os nad yw cymunedau sy'n cynrychioli crefyddau gwahanol yn cymryd mwy o ran ym mhrosesau pennu blaenoriaethau lleol eu heddluoedd.

72. Nodwyd risg mewn perthynas â'r ffaith nad yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol; a bod angen symleiddio'r system.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Ffydd/Crefydd o ganlyniad i'r adolygiad hwn. O ganlyniad i'r Adolygiad, gallai gwasanaethau plismona wella i bobl o wahanol grefyddau neu ffydd.

OEDRAN

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Oedran:

73. Nodwyd risg gan aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol, a bod angen symleiddio'r system.

74. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth pobl ifanc o fewn awdurdodau'r heddlu er mwyn rhoi darlun o farn cymunedau.

75. Effaith andwyol bosibl os nad yw cymunedau sy'n cynrychioli Oedran gwahanol yn cymryd mwy o ran ym mhrosesau pennu blaenoriaethau lleol eu heddluoedd.

TRAWSRYWEDD

Effaith andwyol bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar Drawsrywedd:

76. Nodwyd effaith andwyol bosibl ar gymunedau Trawsrywiol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r broses o gofnodi achosion o stopio a rhoi cyfrif. Nodwyd effaith andwyol bosibl hefyd mewn perthynas ag ansawdd y cysylltiad rhwng y swyddog ac aelod o'r gymuned.

77. Nodwyd risg gan aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn gwybod am beth y mae'r heddlu yn atebol, a bod angen symleiddio'r system.

78. Nodwyd effaith andwyol bosibl mewn perthynas â'r ffaith nad yw awdurdodau'r heddlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r cynigion newydd sicrhau bod cynnydd yng nghynrychiolaeth grwpiau Trawsrywiol o fewn awdurdodau'r heddlu er mwyn rhoi darlun o farn cymunedau.

79. Effaith andwyol bosibl os nad yw cymunedau sy'n cynrychioli grwpiau Trawsrywiol yn cymryd mwy o ran ym mhrosesau pennu blaenoriaethau lleol eu heddluoedd.

Nid oes unrhyw reswm dros gredu y ceir unrhyw effaith andwyol fawr ar faes Trawsrywedd o ganlyniad i'r adolygiad hwn. O ganlyniad i rai o'r cynigion a gyflwynir yn yr Adolygiad, gallai gwasanaethau plismona wella i'r cymunedau Trawsrywiol.

CYFLEOEDD CADARNHAOL

Rhoddwyd llawer o bwyslais ar effeithiau negyddol posibl yr Adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae llawer o fanteision a chyfleoedd posibl a allai godi i gyflogeion yr heddlu a chymunedau lleiafrifol o ganlyniad i'r argymhellion arfaethedig a nodir yn yr adroddiad. Gallai'r argymhellion, pe caent eu rhoi ar waith mewn ffordd fedrus a chynhwysfawr, gael effeithiau cadarnhaol parhaol, yn bennaf o ran codi proffil ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan olygu y byddai gan heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu yr adnoddau a'r gallu i ddarparu gwasanaethau plismona lleol a fyddai'n wirioneddol yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu.

Nodir isod rai o'r cyfleoedd cadarnhaol a nodir yn yr Adolygiad:

80. Mae'r cynnig i sicrhau arian wedi'i glustnodi ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o leiaf ar gyfer 2008/09 a 2009/10 yn fantais i staff yr heddlu, sy'n cynnwys merched a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig y mae mwy ohonynt yn tueddu i fod yn y swyddi hyn.

81. Effaith gadarnhaol bosibl mewn perthynas â'r fformiwla arian a gynigir, gallai hyn gael effaith ffafriol mewn ardaloedd lle y ceir poblogaeth fawr a llawer o amddifadedd.

82. Nodir effaith gadarnhaol bosibl mewn perthynas â gweithio hyblyg i staff plismona yn y gymdogaeth, gan gynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (Merched, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig).

83. Effaith gadarnhaol os bydd y broses recriwtio ar gyfer swyddogion yr heddlu yn ystyried sgiliau blaenorol a feithrinwyd fel swyddog cymorth cymunedol yr heddlu. Byddai hyn yn sicrhau dilyniant gyrfa posibl i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, a allai wella cyfraddau cadw a dilyniant ar gyfer pob maes amrywiaeth yn y gwasanaeth.

84. Effaith gadarnhaol bosibl ar bob maes amrywiaeth os caiff awdurdodau'r heddlu eu harolygu o ran amrywiaeth eu haelodaeth etholedig ac annibynnol fel y'i cynigiwyd yn Neddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Caiff protocolau eu datblygu ar gyfer hyn i'w gweithredu yn 2008/2009. Am fod awdurdodau'r heddlu wedi bod yn araf i wella amrywiaeth eu haelodaeth etholedig ac annibynnol, gallai hyn gynnig cyfle i sicrhau y caiff hyn ei wella.

85. Effaith gadarnhaol i gymunedau Lleiafrifol gymryd rhan ym mhroses arolygu awdurdod yr heddlu a'i ddwyn i gyfrif o ran nifer o fesurau penodol megis:

a) Perfformiad
b) Effeithiolrwydd prosesau i ymgynghori â chymunedau lleiafrifol
c) Datblygiad Proffesiynol, megis mwy o ymwybyddiaeth o amrywiaeth
ch) Craffu ar benodiadau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg – camau cadarnhaol i ddenu mwy o bobl o gymunedau lleiafrifol.

86. Effaith bosibl ar bob cymuned os ceir camau rhagweithiol i wneud y lleoliadau â blaenoriaeth ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yn rhai lleol. Gallai hyn roi'r cymunedau lleiafrifol, sy'n teimlo na chânt gyfle i fynegi beth yw eu pryderon plismona lleol, o dan fantais anuniongyrchol.

87. Effaith gadarnhaol os cyflwynir argymhelliad i sicrhau bod mwy o bwyslais ar sicrhau bod heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu yn marchnata eu gwasanaethau lleol i'r cyhoedd, yn enwedig cymunedau lleiafrifol.

Argymhellion/Mesurau i Liniaru Effaith Anghymesur neu Andwyol

Drwy ddadansoddi'r data, nodwyd y gallai fod rhywfaint o effaith anghymesur neu andwyol yn ystod y broses o weithredu rhai o'r mesurau arfaethedig a amlinellir yn yr Adolygiad o Blismona. Fodd bynnag, mewn ymateb i hyn, argymhellir y dylid cymryd camau penodol i leihau neu liniaru'r effaith negyddol y gallai'r Adolygiad ei chael ar saith maes amrywiaeth. Nodir isod restr o argymhellion a mesurau i liniaru'r effaith anghymesur neu andwyol bosibl:

1. **Am nad oes lawer o ffiniau na chanllawiau mewn perthynas â disgresiwn, os o gwbl, mae angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau y caiff swyddogion a staff yr heddlu eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd ac y sicrheir y cyhoedd yr ymchwilir yn llawn i gwynion ac yr ystyrir bod y camau priodol a gymerir yn erbyn swyddogion a staff yn dryloyw.**

2. **Mae'n rhaid cymryd camau i ymdrin â'r opsiynau posibl hynny a allai leihau cynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a merched o fewn awdurdodau'r heddlu. Mae angen llunio strategaeth weithredu gadarnhaol gyda'r nod o gynyddu cynrychiolaeth awdurdodau'r heddlu yn unol â'u poblogaeth amrywiol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes anghydbwysedd o ran aelodaeth awdurdodau'r heddlu a chyfansoddiad y staff.**

3. **Mae angen cymryd camau cadarnhaol i ehangu rôl swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn swyddi parhaol eraill. Mae angen i Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu weithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona i ddatblygu llwybr gyrfa, fel y gall y gwasanaeth recriwtio, cadw a datblygu pobl o leiafrifoedd megis Merched, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o fewn gwasanaeth yr heddlu.**

4. **Os derbynnir y mesurau arfaethedig i newid y broses o gofnodi achosion o Stopio a Rhoi Cyfrif, argymhellir y dylid treialu'r mesurau a monitro effeithiau'r newid, cyn eu cyflwyno'n llwyr. Hefyd, mae'n rhaid dilyn yr holl fesurau a nodir yn yr argymhelliad o ran Lleihau Biwrocratiaeth er mwyn newid y broses o gofnodi achosion o Stopio a Rhoi Cyfrif.**

Casgliad

Yn yr amserlenni a neilltuwyd i'r Asesiad hwn o Effaith ar Gydraddoldeb, nodwyd nifer o effeithiau andwyol a chyfleoedd fel y'u hamlinellwyd ym mhrif gorff yr adroddiad. Aseswyd y rhain mewn perthynas â phob un o feysydd amrywiaeth megis Hil, Rhyw, Anabledd, Oedran, Ffydd/Crefydd, Tueddfryd Rhywiol a Thrawsrywedd. Yn yr un modd, mae'r Adolygiad wedi creu nifer o gyfleoedd gwirioneddol i wella sefyllfa bresennol y grwpiau a chymunedau lleiafrifol hyn.

Ar ôl asesu pob risg unigol yn ofalus a chydbwyso hyn â'r cyfleoedd cyffredinol, canfuwyd mai effaith andwyol gyfyngedig a gaiff yr Adolygiad o Blismona ar grwpiau a chymunedau lleiafrifol. Fodd bynnag, mae angen gweithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau nad yw effaith andwyol yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol. Yn yr un modd, mae angen i ni sicrhau y caiff cyfleoedd allweddol eu lledaenu hefyd yng ngwasanaeth yr heddlu.

Cyfeiriadau

Hamer, K. (2004) *Review of the Selection and Appointment Process of Independent Members of Police Authorities*. Llundain: Y Swyddfa Gartref: cyhoeddwyd Mai 2004. Ar gael yn: http://police.homeoffice.gov.uk/news-and-publications/publication/police-reform/Police_Authorities_review1.1.pdf

Y Swyddfa Gartref *Statistics on Women and the Criminal Justice System – 2004/5*. Un o gyhoeddiadau'r Swyddfa Gartref o dan adran 95 o'r System Cyfiawnder Troseddol. Llundain: Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau'r Swyddfa Gartref. (Ar-lein yn unig). 21 Tachwedd 2006. Ar gael yn: http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs06/s95women0405.pdf

Bullock, S a Gunning. *Police Service Strength, England and Wales, 31 March 2007*. Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 13/07. Llundain: Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau'r Swyddfa Gartref. 26 Gorffennaf 2007. Ar gael yn: http://www.homeoffice.gov.uk/rds/index.html

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2007) *Statistics on Race and the Criminal Justice System – 2006*. Un o gyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan adran 95 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991, Hydref 2007. Ar gael yn: http://www.justice.gov.uk/publications/statistics.htm

Zamman, U. (2006) *Home Office National Police Force Restructuring Policy Race & Equality Impact Assessment Report*. Llundain: Y Swyddfa Gartref: cyhoeddwyd Mawrth 2006. Ar gael yn: http://police.homeoffice.gov.uk/news-and-publications/publication/police-reform/Draft-Race-and-Equality-Imp1.pdf

Atodiad A

RHESTR O'R RHAI A FU'N BRESENNOL

Rhestr o'r rhai a fu'n bresennol yn y Digwyddiad i Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb ar 31 Gorffennaf 2007 – Y Swyddfa Gartref

Koku Adomdza	1990 Trust
Maqsood Ahmad	Y Swyddfa Gartref - Tîm Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb
Dal Babu	Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Mwslimaidd
Derek Barnett	Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu
Erinma Bell	CARISMA
Linda Bellos	Diversity Solutions
Iqbal Bhana	Gorllewin Swydd Efrog
Michael Bourke	Yr Adolygiad o Blismona
Charlene Brown	Yr Heddlu Metropolitanaidd
Richard Clarke	Yr Adolygiad o Blismona
Judy Clements	Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
Vic Codling	Cymdeithas yr Heddlu Hoyw
Clliff Codona	Grŵp Gweithredu Teithwyr Cenedlaethol
John Coxhead	Heddlu Swydd Derby
Steve Corkerton	Arweinydd y Ffrwd Gwaith – Biwrocratiaeth
Dee Evans	A: Gender
Robin Field-Smith	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Syr Ronnie Flanagan	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Fionualla Gill	Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
Gloria Gomez	Latin Front
Ben Gooch	GALOP
Anthony Gordon	Grŵp Cyfeirio Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Paul Grant	Grŵp Cyfeirio Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
John Graham	Sefydliad yr Heddlu – Arweinydd y Ffrwd Gwaith – Atebolrwydd Lleol
Peter Haddock	Yr Adolygiad o Blismona
Katharine Hagestadt	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi: Tîm Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb
Everett Henry	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi: Tîm Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb
Alfred Hitchcock	Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Peter Holland	Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona
Ruth Hunt	Stonewall
Uzo Iwobi	Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Keith Jarret	Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du
Sam Johnson	Ymchwilydd Annibynnol
Jennifer Joseph	DCA MOJ
Adil Khan	Heddlu Glannau Humber
Danny Lafeyette	Y Swyddfa Gartref
Doreen Lawrence	Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence
Doug Lewins	Awdurdod yr Heddlu Metropolitanaidd
Shakina Luke	Aelod o gymuned
Gavin Mckinnon	Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona
Peter Mercer	Sipsiwn a Theithwyr
Richard Morris	Yr Adolygiad o Blismona
Necdet Nedjet	Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Mwslimaidd
Y Parch Nims Obunge	Peace Alliance
Liz Owsley	Cymdeithas Brydeinig Merched ym maes Plismona
Jayne Pascoe	Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Phil Pavey	Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Ray Powell	Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona
Bob Purkiss	Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
Bernard Reed	GIRES
Terry Reed	GIRES
Andrea Reynolds	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
John Roberts	Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
Hal Savas	Pwyllgor Diogelu Hawliau Tyrciaid
Hayley Sharp	Yr Adolygiad o Blismona
Tony Smikle	Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona
Delores Stratton	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi – Tîm Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb
Sail Suleman	Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Calderdale
Talat Ahmed	Action Aid
Shahien Taj	Henna Foundation
John Willett	Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona
Robyn Williams	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
Umar Zamman	Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi: Asesu Effaith yr Adolygiad o Blismona ar Gydraddoldeb

Atodiad B

CYFARFODYDD YMGYNGHORI STOPIO A RHOI CYFRIF

8fed Awst 2007	–	Heddlu Swydd Hertford – tîm sganio Stopio a Chwilio/Rhoi Cyfrif.
10fed Hydref 2007	–	Mike Ainsworth Uned Hil, Hyder a Chyfiawnder y System Cyfiawnder Troseddol - Y Swyddfa Gartref
19eg Hydref 2007	–	Prif Gwnstabl Steve Green Heddlu Swydd Nottingham
30ain Hydref 2007	–	Comisiynydd Cynorthwyol Tarique Ghaffur Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd
		Grŵp ymgynghori cymunedol Stopio a Rhoi Cyfrif
31ain Hydref 2007 ac 11eg Rhagfyr 2007	–	Doreen Lawrence, yr Arglwydd Victor Adebowale, Iqbal Bhana Dal Babu, y Parch Nims Obunge, Jago Russell, John Roberts
31ain Hydref 2007	–	Rheolwr Rod Jarman Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd Arweinydd y Portffolio Stopio a Chwilio
2il Tachwedd 2007	–	Rheolwr Ian Quinton Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd
9fed Tachwedd 2007	–	Steve Anderson Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
12fed Tachwedd 2007	–	Prif Gwnstabl Craig Mackie Cwnstabliaeth Cumbria Arweinydd Stopio a Chwilio Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

YR ADOLYGIAD
O BLISMONA

GAN SYR RONNIE FLANAGAN

ADRODDIAD AR YR ASESIAD O EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Chwefror 2008

Lluniwyd ar ran yr Adolygiad o Blismona gan Syr Ronnie Flanagan. Chwefror 2008.
ISBN 978-1-84726-580-7